PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD LLUN, 18 MAWRTH 2024

Yn bressenol: Cynghorydd Taylor (Cadeirydd)
Cynghorwyr Ash-Edwards, Lent, Lewis, Littlechild a/ac McGarry

## 40 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim wedi'u derbyn.

## 41 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Littlechild fuddiant personol yn eitem 5 oherwydd ei waith gyda phrosiectau tai cymdeithasol a datganodd y Cynghorydd Lewis fuddiant personol yn eitem 5 fel Cynghorydd Ward.

## 42 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26/02/24 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

## 43 : CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI AR GYFER 2024/25

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn eu galluogi i ystyried y ffordd y caiff Cyfrif Refeniw Tai'r Cyngor ei ddefnyddio a'i reoli.

Atgoffwyd yr Aelodau fod Atodiad 4 wedi'i eithrio rhag ei gyhoeddi ac felly byddai'n rhaid cymryd unrhyw gwestiynau ar yr Atodiad hwnnw mewn sesiwn gaeedig.

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne, yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau, Sarah McGill, Jane Thomas, Helen Evans a Dave Jaques o'r Gyfarwyddiaeth Tai a Chymunedau ac Anil Hirani a Gill James o'r adran cyfrifeg.

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol ac ar ôl hynny rhoddodd y Swyddogion gyflwyniad i'r Aelodau.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Trafododd yr Aelodau yr angen am gydbwysedd rhwng tynnu sylw at yr agweddau ariannol ar y cynllun ac adrodd hanes adeiladu Tai Cyngor a sicrhau bod y Cynllun yn siarad â'i gynulleidfaoedd niferus mewn ffordd dryloyw a chlir.

Awgrymodd yr Aelodau y gallai Cynlluniau Busnes yn y dyfodol gynnwys pwyslais cryfach ar y cyd-destun ariannol heriol drwyddynt, yn ogystal â rhoi gwybodaeth ariannol fanylach fel esboniadau o dermau fel "dyledion drwg" a mewnwelediadau i asesiadau ad-dalu benthyciadau a phecyn cymorth hyfywedd. Roedd yr Aelodau o'r farn bod y Cynllun Busnes yn cyfleu gwybodaeth ariannol gymhleth yn effeithiol mewn modd clir a hygyrch ond argymhellon nhw welliannau ar gyfer fersiynau yn y dyfodol.

O ran Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) 2023, roedd y Pwyllgor o’r farn y gellid ystyried y pwyntiau canlynol gyda Llywodraeth Cymru:
- Ymchwilio a oes modd gwrthbwyso ymdrechion y Cyngor i adeiladu tai carbon-positif yn erbyn stoc tai hŷn a allai ei chael yn anodd bodloni gofynion sgorio perfformiad ynni erbyn 2034.
- Deall sut y gallai cyflawni safonau SATC effeithio ar allu'r Cyngor i dderbyn Grantiau Lwfans Atgyweiriadau Mawr.
- Annog Llywodraeth Cymru i ystyried y gofynion a roddir ar ddatblygwyr preifat wrth fwrw targedau datgarboneiddio tra'n sicrhau tegwch a chydbwysedd wrth gyflawni uchelgeisiau hinsawdd.

Nododd yr Aelodau y diffyg cynllunio ariannol yn y Cynllun Busnes ar gyfer bodloni’r agweddau datgarboneiddio ar safonau SATC. Er eu bod yn cydnabod yr heriau wrth amcangyfrif costau hyd nes y ceir mwy o fanylion, awgrymodd yr Aelodau gynnwys cynllunio ariannol dangosol yn y Cynllun Busnes, fel amcangyfrif o ddadansoddiad cost fesul uned.

Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed am sefydlu tasglu newydd i fynd i'r afael â heriau SATC a mynegodd ddiddordeb mewn cydgysylltu ymhellach â'r tasglu ac o bosibl cynnig cymorth i leddfu pwysau adnoddau.

Roedd yr Aelodau'n pryderu am y cynnydd sylweddol yn y ddibyniaeth ar grantiau a chyfraniadau allanol yng Nghynllun Busnes 2024/25 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Gofynnon nhw am fwy o fanylion am yr arian grant a gadarnhawyd yn erbyn yr arian grant a ddisgwyliwyd, a phwysleision nhw bwysigrwydd cynllunio ariannol parhaus rhag ofn na dderbynnir grantiau. Nodwyd bod mwyafrif yr ansicrwydd grant yn ymwneud â grantiau tai cymdeithasol, ac anogodd yr Aelodau rybudd rhag cymryd y bydd grantiau'n cael eu rhoi.

Mynegodd y Pwyllgor siom nad oedd ei sylwadau blaenorol ynghylch rhoi mwy o eglurder a dadansoddiad o eiddo gwag yng Nghynllun Busnes y Cynllun Refeniw Tai wedi cael sylw. Gofynnon nhw am eglurder ynghylch ystyr y ffigurau a gyflwynwyd a phwysleision nhw’r angen am i Gynlluniau Busnes yn y dyfodol roi gwybodaeth gliriach am eiddo gwag.

Cymeradwyodd yr Aelodau yr uchelgais a'r ymrwymiad ariannol a amlinellwyd yn y cynllun ar gyfer atgyweirio tai, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, bodloni anghenion tai cefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, a sicrhau’r maint cywir ar gyfer eiddo’r Cyngor.

Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd adolygu prosesau digidol a chynigion newid gwasanaethau a sicrhau bod yr holl brosesau yn gynhwysol i bawb.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau ac argymhellion y Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

44 : AIL-GLADIO NELSON / LOUDOUN

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr eitem hon yn eu galluogi i ystyried y gallu i ail-gladio Tŷ Loudoun a Nelson.

Atgoffwyd yr Aelodau fod Atodiadau 3 a 4 wedi'u heithrio rhag eu cyhoeddi ac y byddai’n rhaid cymryd unrhyw gwestiynau ar y rhain mewn sesiwn gaeedig.

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne, yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau, Sarah McGill, Jane Thomas, Helen Evans a Dave Jaques o’r Gyfarwyddiaeth Tai a Chymunedau ac Anil Hirani a Gill James o’r adran cyfrifeg a Graham Bond, Rheolwr Gweithredol yn Rheoli Adeiladau.

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau ar y wybodaeth gyhoeddus.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch y gwersi a ddysgwyd o brosiect Fflatiau Lydstep a mynegodd yr Aelodau bryder am ffocws Adroddiad y Cabinet yn bennaf ar ddewis cladin, gan anwybyddu gwersi pwysig eraill a phrofiadau preswylwyr. Gofynnodd yr Aelodau am gadarnhad o'r gost gyffredinol derfynol ar gyfer Fflatiau Lydstep a chyfraniadau lesddeiliaid, gan gynnwys yr hyn yr oedd eu taliadau yn talu amdano.

Mynegodd y pwyllgor bryder am yr effaith ar breswylwyr oherwydd tynnu cladin o Dŷ Nelson a phresenoldeb cladin nad yw'n cydymffurfio yn Nhŷ Loudoun, gan achosi gorbryder ymhlith preswylwyr. Nododd yr Aelodau yr iawndal ariannol ar gyfer biliau cyfleustodau preswylwyr Tŷ Nelson.

Mynegwyd pryderon am yr oedi cyn dechrau'r prosiect er gwaethaf ei gynnig yn 2020. Roedd yr Aelodau yn deall y rhesymau ond yn pwysleisio pwysigrwydd lleihau oedi pellach i leddfu pryderon preswylwyr.

Nododd yr Aelodau y gost a ragwelir ar gyfer y prosiect, gan gynnwys dyraniad wrth gefn a'r gallu i hawlio TAW yn ôl. Roeddent yn falch o glywed bod disgwyl i grant gan Lywodraeth Cymru dalu am gost lawn y gwaith, gyda lesddeiliaid Tŷ Loudoun ddim yn gorfod cyfrannu'n ariannol.

Tynnodd y pwyllgor sylw at bwysigrwydd tryloywder costau a phroses ar gyfer gwneud penderfyniadau rhag ofn y bydd costau’n cynyddu, gan gynnwys cyswllt pellach â Llywodraeth Cymru ac adrodd i'r Cabinet am benderfyniad.

Mynegodd y pwyllgor bryderon am yr amserlen adeiladu 18 mis arfaethedig ar gyfer Tŷ Loudoun a Nelson, o ystyried yr amser cyflawni estynedig ar gyfer Fflatiau Lydstep.

Roedd yr Aelodau'n poeni am y posibilrwydd o golli arweiniad technegol a rheolaeth dros fanyleb cladin. Rhoddwyd sicrwydd iddynt na fyddai gan gontractwyr bŵer disgresiynol llawn ac y byddai ymgynghorwyr technegol, ynghyd â phrosesau adolygu rheoli adeiladau, yn arwain ac yn rheoli'r canlyniad. Pwysleisiodd y pwyllgor bwysigrwydd sicrhau trosolwg parhaus a manwl o fanylebau technegol y prosiect a’r gwaith o’i gyflawni.

Oherwydd materion sain a gafwyd yn y cyfarfod, gofynnodd y pwyllgor am eglurhad ar oblygiadau Deddf Diogelwch Adeiladu 2022 i'r Cyngor, yn enwedig mewn perthynas â phrosiect Loudoun a Nelson. Gofynnodd am fewnwelediad i sut y gallai amseriad rheoliadau newydd Cymru effeithio ar y prosiect a pha gamau a oedd yn

cael eu cymryd i liniaru'r risg hon. Yn ogystal, gofynnodd am ddiweddariad ar gynnydd llunio'r cynllun gweithredu a argymhellwyd gan Archwilio Cymru i baratoi ar gyfer gofynion y Ddeddf.

PENDERFYNWYD - Bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd o’r pwynt hwn gan fod y wybodaeth sydd i'w thrafod gan y Pwyllgor yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn unol â’r disgrifiad a geir ym mharagraff 16 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu gwahardd o’r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau ac argymhellion y Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 45 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi’u derbyn.

## 46 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

22 Ebrill am 4:30pm

Daeth y cyfarfod i ben am 6.25 pm.